

DANGOSFWRDD COEDWIGAETH

Hydref 2021 – Medi 2022



MAE

682

O FUSNESAU SYDD WEDI COFRESTRU GYDA CYSWLLT FFERMIO YN DOD O'R SECTOR COEDWIGAETH.



Mentro



MAE

0

O'R CYFLEOEDD YN CYNNWYS COEDWIGAETH

gyda



8

O GEISWYR COEDWIGAETH

Digwyddiadau Ymwybyddiaeth Strategol



Roedd y prif bynciau'n cynnwys:

Iechyd a diogelwch mewn coedwigaeth



Cyrraedd y gofynion ansawdd tanwydd newydd ar gyfer cyflenwyr BSL ac achrediad Woodsure




*Yn aml, mae themâu Digwyddiad Ymwybyddiaeth Strategol yn rhai traws-sector sy'n tueddu i ddenu ffermwyr o bob sector.

Hyfforddiant

Cafwyd 6 cyfnod ymgeisio rhwng mis Hydref 2021 a Medi 2022, gyda **1,064** achos o hyfforddiant yn cael ei ddarparu yn ystod y cyfnod.

O'r nifer hwn, roedd **42** o'r achosion o'r sector coedwigaeth.

Nifer yr unigolion a dderbyniodd hyfforddiant yn ôl categori:



Cyfanswm fesul categori

■ Busnes ■ Tir ■ Da Byw

E-ddysgu

Rhai o'r cyrsiau e-ddysgu a gwblhawyd yn ystod y cyfnod hwn yn ymwneud â'r sector coedwigaeth:

ADNABOD COED



IECHYD COED – PLÂU AC AFIECHYDON COED



DEALL Y MANTEISION O GOED AR FFERMYDD YR UCHELDIR



Am ragor o fanylion ynglŷn ag e-ddysgu, ewch i'r [wefan](#).

Canolfan Gyfnewid Gwybodaeth

Cyhoeddwyd yr erthyglau technegol canlynol gan y Ganolfan Gyfnewid Gwybodaeth:

FFOCWS FFERMIO AR FFYNGAU: YSTYRIED ISLAW'R DDAEAR ER BUDD UWCHLAW'R DDAEAR

DEFNYDDIO MYCORHISA: NATUR NEU FAGWRAETH

PEIRIANNAU COETIROEDD, EFFEITHIAU AR Y PRIDD A CHAMAU LLINIARU

ARALLGYFEIRIO BUSNES FFERM – O SAFBWYNT YMCHWIL

NEWID DEFNYDD TIR AR GYFER ATAFaelu CARBON: ASESU DYLANWAD MASNACHU CARBON

RHWYSTRO'R RHEDYN: STRATEGAETHAU RHEOLI A LLINIARU

GWEITHREDIAD A GWYTNWCH ECOSYSTEM: PAM EI FOD YN BWYSIG I AMAETHYDDIAETH?

Y Rhwydwaith Arddangos

Safle ffocws Plas yn lâl:

Yn Ebrill 2022, ymwelodd y Gweinidog Materion Gwledig, Lesley Griffiths, â fferm Plasyn lâl i weld sut y maent yn manteisio ar Cyswllt Ffermio. Nod y prosiect yn fferm Plas yn lâl oedd gwella'r rheolaeth coetir yn gyffredinol a fyddai'n cyfrannu at gyflenwad coed cynaliadwy tuag at anghenion ynni'r fferm. Gwnaed hyn trwy baratoi a gweithredu cynllun rheolaeth coetir Coedwigaeth Gorchudd Parhaus (CCF), gan gyfuno canlyniadau arolygon ar y ddaear a drôn.

Dywedodd Huw Beech: "Rwyf yn arbennig o falch o'r gwaith yr ydym yn ei wneud yma yn fferm Plas yn lâl a fydd o fudd i'r busnes yn ogystal â'r amgylchedd.

"Mae Cyswllt Ffermio yn chwarae rhan bwysig yn yr hyn yr ydym yn anelu i'w gyflawni ac rwyf am ddiolch iddynt am eu cefnogaeth barhaus.

"Roeddwn yn falch iawn o groesawu Lesley Griffiths i'r fferm, esbonio'r gwaith sy'n digwydd yma a thrafod manteision bod yn rhan o rhwydwaith arddangos Cyswllt Ffermio, a wnaeth ein galluogi i redeg prosiect yn edrych ar Goedwigaeth Gorchudd Parhaus."

Ar hyn o bryd mae Huw Beech yn aros i'w drwydded dorri coed gael ei chymeradwyo gan Gyfoeth Naturiol Cymru cyn gweithredu'r gwaith teneuo Coedwigaeth Gorchudd Parhaus.

Safle ffocws Moelgolomen

Nod y prosiect yw darparu dull holistaidd sy'n cwmpasu nifer o agweddau amgylcheddol i ddynodi a chynllunio metrics o ymyraethau arfaethedig ar y fferm i wella perfformiad amgylcheddol ac economaidd busnes y fferm gan gynnig dewisiadau rheoli tir cynaliadwy a chyfrannu at liniaru newid hinsawdd.

Pan fydd Coed Cadw wedi mapio potensial plannu gwrychoedd at y dyfodol, bydd swyddogion technegol Cyswllt Ffermio yn gweithio ar asesiad o'r gwrychoedd presennol ac yn cynghori ar eu rheolaeth yn y dyfodol yn ystod hydref 2022. Bydd y cynllun rheoli yn gymysgedd o arolygon maes a phen desg/map i asesu eu cyflwr presennol a dynodi meysydd i'w gwella. Bydd amrywiaeth fawr o rywogaethau a nodweddion rhywogaethau sy'n fwy gwydn i ymdopi â thywydd eithafol e.e. sychder yn ogystal â rhywogaethau sefydlogi nitrogen yn cael eu harchwilio.

Gall sicrhau gwrychoedd cadarn, addas i'r diben gynnig manteision economaidd ac amgylcheddol i'r fferm. Bydd amcanion yn cael eu dynodi yn ystod y cyfnod cynllunio a'r dewisiadau a'r presgripsiynau yn cael eu dylunio yn ôl hynny.

Bydd y cynllun hefyd yn dynodi rhaglen waith a all gael mynediad i ffrydiau cyllido posibl.

Digwyddiad EIP – Sefydlu coed a'u rheoli ar safleoedd heriol

Cynhaliwyd digwyddiad agored ar Nannerth Fawr ar 6 Gorffennaf 2022 i ffermwyr gael y cyfle i ddysgu rhagor am y pwnc o sefydlu a rheoli coed ar safleoedd heriol. Nod y prosiect EIP oedd cymharu gwahanol ddulliau o reoli rhedyn sy'n osgoi triniaethau chwynladdwr o'r awyr drud a phryderus yn amgylcheddol. Yn dilyn cyflwyniad i'r fferm a chefnidir y prosiect sefydlu coed mewn rhedyn trwchus EIP, aeth Dr Peter Jackson â'r rhai oedd yn bresennol ar daith trwy'r fferm. Ar y daith, arweiniwyd y rhai oedd yn bresennol i weld arbrofion diweddar gyda strimiwr, sribedi wedi eu trin ar y prif safle, planhigfa goed wedi ei chreu gan y ffermwr yn 2014 ac i edrych ar y safle plannu cymysg newydd mwy. Rhoddodd hyn gyfle i'r rhai oedd yn bresennol drafod pynciau gan gynnwys rheoli chwyn, diogelu coed, carbon a rheolaeth ar ôl iddynt ymsefydlu.

Dengys canfyddiadau'r prosiect hyd yn hyn bod y gyfradd farwolaethau rhwng y rhywogaethau yn amrywio yn sylweddol, gyda dim ond 5% o gollodion ar gyfer bedw a chriafol a thua 10% ar gyfer pyrwydden Sitca. Ar gyfer derw, roedd y colledion yn cynyddu i gyfartaledd o 25%, dros 30% hyd yn oed ar un safle.

Canfu'r prosiect hefyd nad oedd unrhyw un o'r triniaethau wedi cael effaith sylweddol ar y cyfraddau marwolaeth mewn cymhariaeth â safleoedd lle nad oedd y rhedyn wedi ei reoli.



Safle arddangos Moelogan Fawr

Mae Llion a Siân Jones wedi croesawu'r cyfle trwy gynllun Creu Coetir Glastir, i sefydlu 10ha o goetir llydanddail ar Moelogan Fawr.

Egwyddorion sylfaenol sefydlu coetir ym Moelogan Fawr:

Gwnaed y penderfyniad i blannu gan wybod bod sefydlu coetir newydd yn elfen ganolog o'r dirwedd amaethyddol ac yn un fydd yn rhoi pwyslais ar sylfaen ariannol cadarn a phroffidiol i'r busnes cyfan. Mae'n bwysig edrych ar gyfleoedd gan gynnwys coetir a seilwaith gwyrdd a fydd yn cynnig atebion ar sail natur i wella gwytnwch amgylcheddol a busnes. Plannwyd 10ha i sefydlu coetir llydanddail ym Moelogan Fawr gyda'r nod o gynnig cysgod, lleihau problemau llif dŵr ar y tir mewn tywydd eithafol, cyfrannu at greu gwytnwch i newid hinsawdd ac atafaelu carbon.

Nod y prosiect hwn yw dangos pwysigrwydd a'r angen am greu'r amodau cywir a phlannu'r goeden iawn yn y lle iawn am y rheswm iawn trwy fonitro a gwerthuso tyfiant y goeden.

Dengys allbynnau'r prosiect gyfraddau ymsefydlu llwyddiannus pan fydd cyllid grant wedi ei gymeradwyo wedi annog dulliau cost effeithiol a dangos arfer gorau sy'n cyfrannu'n fawr at gyflawni'r amcanion ar gyfer sefydlu coetir newydd ym Moelogan Fawr.

Amcanion y plannu newydd yw:

- Cynyddu'r gorchudd coetir a chynefin bioamrywiaeth
- Defnyddio tir ymylol ar gyfer defnydd gwahanol, gan wneud y mwyaf o natur amlbwrpas coed
- Darparu adnoddu tanwydd coed at y dyfodol
- Arallgyfeirio cynhyrchiant ar y fferm
- Cynyddu atafaelu carbon ar y fferm – y safle wedi ei gofrestru ar gyfer y cod carbon coetir.

Neges allweddol – er bod plannu a sefydlu coetir newydd yn eithriadol o bwysig mae angen rhoi pwyslais clir ar gynllunio rhaglen barhaus o ofal a chynnal a chadw ar ôl plannu sy'n ganolog i greu amodau i'r coed ymsefydlu'n llwyddiannus.



Ffigwr 1. Fferm Moelogan Fawr.

Cynlluniau at y dyfodol ym Moelogan Fawr – cyfleoedd i blannu mwy – gwrychoedd/lleiniau cysgodi.

- Mae gweledigaeth glir ar gyfer cyfleoedd ychwanegol i blannu coed. Ond mae'r cynefin gwahanol sy'n bodoli'n barod e.e. mawn dwfn, adar yn nythu ar y ddaear a chynefin llygod y dŵr yn atal plannu ar y bryn. Mae'r angen am gysgod yn amlwg iawn mewn tywydd eithafol i roi blaenoriaeth i iechyd a llesiant yr anifeiliaid yn y dyfodol. Bydd angen ymgynghori ar y cynlluniau at y dyfodol ac asesiad effaith amgylcheddol o bosibl i benderfynu a ganiateir mwy o blannu.
- Cod Carbon Coetir: Cofrestrwyd yr ardal sydd wedi ei phlannu gyda'r Cod Carbon Coetir a gwnaed cyfrifiadau i bennu'r carbon fydd yn cael ei atafaelu yn yr ardal sydd wedi ei phlannu dros y 100 mlynedd nesaf. 2022 yw'r bumed flwyddyn ers eu sefydlu a bydd y ffigurau sydd wedi eu cyfrifo yn cael eu dilysu trwy ganlyniadau arolwg safle gan Gymdeithas y Pridd. Ar ôl eu dilysu, bydd yr unedau carbon ar gael i'w defnyddio naill ai i'w rhoi ar y farchnad garbon i'w gwerthu neu i'w defnyddio i wrthbwysu carbon ar y fferm.
- Cynnal arolwg o'r pridd mawndir – archwilio cyfle i arolygu priddoedd mawndir i atafaelu carbon.

Cymorthfeydd



CYNHALIWIYD 10 CYMHORTHFA



Roedd y prif bynciau'n cynnwys:

Coetir	Bioamrywiaeth a chynefin
Cynllunio a datblygu	Cyfreithiol
RPW	Marchnata ac arallgyfeirio
Cynllunio ariannol a chyfrifyddiaeth	Rheoli staff

Adborth gan rai a fanteisiodd ar gymorthfeydd Coetir a Marchnata ac arallgyfeirio yn ystod y cyfnod hwn:

"Rydym yn ystyried arallgyfeirio ein busnes i werthu coed tân. Rhoddodd y ddwy gymhorthfa ddigon o syniadau i ni nad oeddem wedi meddwl amdanynt a rhoi arweiniad cyffredinol i ni. Roedd yn help mawr."

Grwpiau Trafod



CYNHALIWIYD

5 CYFARFOD YN CANOLBWYNTIO AR FATERION COEDWIGAETH gyda

19 O FYNICHWYR

Amaethgoedwigaeth ar ffermydd Sir Faesyfed – Grŵp Dolygarn

Gyda'r cynigion newydd ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy wedi eu cyhoeddi'n ddiweddar, mae amaethgoedwigaeth yn cael ei drafod fwy nag erioed. Trefnwyd y cyfarfod hwn i roi eglurder i'r grŵp ar beth yw amaethgoedwigaeth, sut y gellir ei weithredu ar eu ffermydd a sut y mae'n gysylltiedig â chynnig Cynllun Ffermio Cynaliadwy diweddaraf Llywodraeth Cymru. Geraint Jones yw Swyddog Technegol Cyswllt Ffermio ar gyfer coedwigaeth ac ymunodd â'r grŵp am gyfarfod fin nos.

Amaethgoedwigaeth yw cyfuno coed ac anifeiliaid/cnydau ar yr un darn o dir gan reoli'r tir yn ofalus. Yn ystod y cyfarfod codwyd llawer o gwestiynau am y cynnig gorchudd coetir 10%. Roedd rhai o'r aelodau'n bryderus gan eu bod yn credu mai dim ond tua 2% o orchudd coed sydd ganddynt ar hyn o bryd, roedd gan eraill ymhell dros y 10%. Trafododd Geraint amaethgoedwigaeth, lleiniau cysgodi a phlannu i ddiogelu cyrsiau dŵr. Roedd y grŵp yn agored ac yn barod i dderbyn ffyrdd gwahanol o blannu ac ymgorffori coed yn eu systemau ffermio mewn ffordd a allai gynnig mantais i'r amgylchedd a'u busnes heb golli tir cynhyrchiol. Canolbwyntiodd y cyfarfod hefyd ar ddefnyddio coed mewn mannau strategol i greu cysgod i laswellt ac anifeiliaid (sy'n arbennig o berthnasol eleni).

Ar hyn o bryd mae gan Lywodraeth Cymru nifer o grantiau ar agor neu yn agor yn y dyfodol agos i gefnogi creu coetir ac fe wnaeth Natalie Chappelle – Swyddog Datblygu Lleol Maesyfed a Geraint annog busnesau i edrych ar y rhain. Mae cymorth ar gael hefyd trwy Cyswllt Ffermio gyda chymorthfeydd a'r Gwasanaeth Cynghori os bydd busnesau am gael cyngor mwy penodol.